

- 1 Ydw/Oes/Oeddwn/Byddwn. Nac ydw/Nac oes/Nac oeddwn/Na fyddwn. Ddim yn gwybod. Ddim yn deall.
- 2 Beth yw eich enw? Ydych chi'n gallu ysgrifennu hwn yn y Saesneg?
- 3 Ysgrifennwch eich cyfeiriad os gwelwch yn dda.
- 4 Beth yw eich oed?
- 5 Ydych chi'n gallu rhoi enw a rhif ffôn neu gyfeiriad rhywun i gysylltu ag ef/â hi?
- 6 Byddwch chi'n cael eich archwilio'n fuan gan ¹feddyg. ²nyrs.
- 7 Ydych chi wedi cael damwain? Pryd? (dangoswch ar galendr a chloc)
- 8 Oeddech chi'n anymwybodol?
- 9 Pryd oeddech chi'n mynd yn sâl? (dangoswch ar galendr a chloc)
- 10 Ydych chi mewn poen? Dangoswch ble. Pryd oedd hwn yn dechrau? (dangoswch ar galendr a chloc)
- 11 Beth yw lefel eich poen? 1 (dim poen) 2 3 4 5 6 7 8 9 10 (poen cronig)
- 12 Y poen, ydy hwn yn gyson? Neu ydy e'n mynd a dod?
- 13 Ydych chi'n gwaedu? Dangoswch ble.
- 14 Ydych chi'n pesychu? Ydych chi'n taflu rhywbeth i fyny wrth besychu?
Pa liw? gwyn? melyn-wyrdd? coch? brown?
- 15 Ydych chi'n fyr o wynt?
- 16 Ydych chi wedi taflu i fyny? Ydych chi wedi cyfogi gwaed?
- 17 Ydych chi wedi cael dolur rhydd?
- 18 Ydych chi'n rhwym?
- 19 Ydych chi wedi pasio carthion du?
- 20 Ydy eich ffêr yn chwyddo?
- 21 Ydych chi wedi colli pwysau?
- 22 Ydych chi wedi cael anhawster i ¹weld? ²glywed? ³lyncu? ⁴gerdded?
- 23 Ydych chi wedi cael llawdriniaeth erioed? Dangoswch ble.
- 24 Pryd oedd eich misglwyf olaf yn dechrau? (dangoswch ar galendr)
Ydych chi'n feichiog? Sawl mis?
Ydy hi'n bosibl eich bod yn feichiog? Ydych chi'n fodlon i ni gynnal prawf beichiogrwydd?
- 25 Ydych chi'n ysmygu? Sawl sigaret y dydd?
- 26 A ydych chi'n dioddef gan ¹ddiabetes siwgr? ²epilepsi? ³asthma?
- 27 Ydych chi wedi dioddef erioed gan ¹broblemau'r galon? ²angina? ³bwysedd gwaed uchel?
⁴drawiad ar y galon? ⁵strôc? ⁶y clwyf melyn? ⁷hepatitis?
- 28 A oes gennych alergedd i unrhyw feddyginiaeth? Penisilin? Aspirin? Unrhyw feddyginiaeth arall?
- 29 Ydych chi'n cymryd unrhyw feddyginiaeth ar hyn o bryd? Ydy'r rhain gyda chi?
Ydych chi'n cymryd unrhyw gyffuriau eraill neu feddyginiaethau naturiol?
- 30 Sawl tabled rydych chi wedi'u cymryd?
- 31 Ydych chi wedi cael eich imiwneiddiad tetanws yn llawn?

- 32 Ydych chi wedi bod mewn gwlad y tu allan i'r DU yn ddiweddar? Pa un? Pryd?
- 33 Rydw i'n: ¹nyrs. ²feddyg. ³gallu cynnig cymorth cyntaf. ⁴barafeddyg. ⁵weithiwr cymdeithasol.
- 34 Ydych chi'n fodlon i mi eich archwilio? Ydy'n well gennych gael eich archwilio gan ¹ddyn? ²ddynes?
- 35 Sori, mae'n bosibl y bydd hyn yn brifo.
- 36 Mae'n rhaid i mi brofi eich pwysedd gwaed.
- 37 Mae'n rhaid i mi wrando ar eich brest.
- 38 Mae'n rhaid i mi brofi eich calon.
- 39 Mae'n rhaid i mi eich archwilio'n fewnol.
- 40 Mae'n rhaid i mi roi pigiad i chi.
- 41 Mae'n rhaid i mi basio'r tiwb hwn.
- 42 Mae'n rhaid i mi gymryd sampl o'ch gwaed.
- 43 Mae'n rhaid i mi eich anfon am Belydr-x.
- 44 Mae'n rhaid i mi roi ychydig o bwythau i chi.
Mae'n rhaid i chi fynd at eich meddyg i gael tynnu eich pwythau ar y diwrnod hwn (dangoswch ar galendr a chloc).
- 45 Rydych chi wedi torri/cracio eich: ¹coes. ²ffêr. ³braich. ⁴garddwrn. ⁵ysgwydd.
- 46 Mae'n rhaid i chi gael mowldiad plastr ar eich: ¹coes. ²ffêr. ³braich. ⁴garddwrn.
- 47 Mae'n rhaid i chi gadw hwn (pwyntiwch) arno tan y dyddiad hwn (dangoswch ar galendr).
- 48 A fyddech chi cystal â phasio dŵr yn y cynhwysydd hwn.
- 49 Peidiwch â bwyta nac yfed o gwbl.
- 50 Gallwch godi'n awr.
- 51 Mae'n rhaid i chi aros yn yr ysbyty.
A fyddech chi cystal ag aros nes bod gwely ar gael yn y ward.
- 52 Bydd popeth yn iawn. Peidiwch â phoeni.
- 53 Ydych chi am i mi alw tacsï i chi?
- 54 Defnyddiwch hwn os byddwch chi angen help.
- 55 Arhoswch os gwelwch yn dda. A fyddech chi cystal â dod y ffordd hon. Gallwch fynd adref.
- 56 Cofiwch ddod yn ôl os bydd gennych unrhyw broblem arall.
- 57 Gadewch i mi ail adrodd hyn yn ôl i chi...

Cwestiynau gan gleifion

- 58 Pa mor hir y bydd yn rhaid i mi aros? hyd at 1 awr hyd at 2 awr hyd at 3 awr hyd at 4 awr
- 59 A fydd rhywun yn galw fy enw?
- 60 Ble mae'r ffôn, mae'n rhaid i mi ffonio fy nheulu/ffrind?
- 61 A fyddech chi cystal â galw tacsï i mi gael mynd adref?
- 62 Ydw i'n mynd i fod yn iawn?